Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 12 Taenu gwastraff ar dir er budd amaethyddol neu welliant ecolegol

**Rheolau safonol ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol**

**Hydref 2016**

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru

# Crynodeb

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (‘Rheoliadau TA’) yn ein galluogi i gynnig trwyddedau safonol, i leihau'r baich gweinyddol ar fusnesau wrth gynnal safonau amgylcheddol. Maent yn seiliedig ar setiau o reolau safonol y gallwn eu cymhwyso'n eang yng Nghymru a Lloegr. Datblygir y rheolau drwy ddefnyddio asesiadau o'r risg amgylcheddol y mae'r gweithgaredd yn ei pheri.

Mae'r rheolau'n cymryd cryn dipyn o amser, adnoddau a gwaith ymgynghori i'w datblygu, ond unwaith iddynt gael eu rhoi ar waith maent yn gwneud y gwaith o benderfynu ar y ceisiadau'n gymharol hawdd. Mae hyn am nad oes angen cynnal asesiad risg penodol i'r safle.

Rydym yn cynnig adolygu'r pedair rheol safonol ganlynol, sy'n cynnwys taenu ar dir a storio deunydd treuliadwy:

- SR2010No4: peiriannau symudol ar gyfer taenu gwastraffau ar dir
- SR2010No5: peiriannau symudol ar gyfer adennill, adfer neu wella tir
- SR2010No6: peiriannau symudol ar gyfer taenu llaid carthion ar dir
- SR2010No17: storio deunydd treuliadwy o safleoedd treulio anerobig

Hoffem dderbyn eich barn ar y cynigion canlynol:

1. Cyflwyno cyfyngiadau newydd sy'n effeithio ar weithgareddau taenu ar dir a storio, a fydd yn amddiffyn yr amgylchedd yn well.
2. Darpariaethau newydd sy'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i weithredwyr o ran maint yr ardal a dewis y gwastraffau derbyniol y gallant eu taenu.
3. Newidiadau bach i ddiffiniadau a geiriad er mwyn gwella eglurdeb a chysondeb.

Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r broses ymgynghori ac yn cyhoeddi'r rheolau safonol newydd ar ein gwefan ar y cyd â manylion y broses gwneud cais.

# Cynnwys

**Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 12 Taenu gwastraff ar dir er budd amaethyddol neu welliant ecolegol** **i**

**Crynodeb** **iii**

**Cynnwys** **iv**

**1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn** **1**

**2 Trwyddedau safonol – sut maent yn gweithio** **2**

**3 Set arfaethedig o reolau ac asesiad risg** **5**

**4 Cwestiynau ymgynghori** **10**

**5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn** **12**

# 1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Dogfen esboniadol yw hon sy'n rhoi amlinelliad o'r dogfennau rydym yn ymgynghori yn eu cylch, a throsolwg o'r broses drwyddedu safonol. Mae wedi'i dylunio i'ch helpu i'w deall ac i wneud sylwadau arnynt.

## 1.1 Yr hyn rydym yn ymgynghori amdano

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ein galluogi i ddatblygu ac adolygu rheolau safonol ar gyfer rhai gweithgareddau penodol. Rydym yn eu seilio ar ein dealltwriaeth o'r risgiau. Rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn â ph'un a ydym wedi nodi'n gywir y risgiau sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd a ph'un a yw'r set ddiwygiedig o reolau'n briodol i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud yn bennaf â'r dogfennau canlynol:

**Asesiadau risg generig (gweler Adran 3 am ragor o wybodaeth)**:

Mae'r rhain yn disgrifio'r risgiau y mae pob math o weithgaredd yn eu peri i'r amgylchedd ac i iechyd pobl, a'r ffyrdd y gellir rheoli'r risgiau hyn. Maent yn diffinio'r terfyn risg y gellir ei reoleiddio gan fesurau rheoli cyffredin, wrth lwyddo i gyflawni lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol o hyd.

**Setiau o reolau safonol (gweler Adran 3 am ragor o wybodaeth):**

Mae'r rhain yn cynnwys yr holl reolau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y risgiau i'r amgylchedd ac iechyd dynol yn cael eu lleihau hyd at lefel dderbyniol ar gyfer y gweithgaredd hwn.

## 1.2 Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu i chi

Rydym o'r farn y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb penodol i'r canlynol:

**Gweithredwyr, cymdeithasau masnach, a busnesau:**

Dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau a'r asesiad risg generig yn gweithio i chi a'ch diwydiant, a hefyd yn darparu'r diogelwch angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol. Hoffem dderbyn unrhyw awgrymiadau sydd gennych er mwyn sicrhau bod y rheolau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu defnyddio mwy, ac am setiau eraill o reolau.

**Rheoleiddwyr eraill, y cyhoedd, grwpiau cymunedol, a sefydliadau anllywodraethol sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol:**

Dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau a'r asesiadau risg yn gweithio i ddarparu'r diogelwch angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol, ac ar yr un pryd yn parhau i fod yn ddefnyddiol i'r diwydiant.

# 2 Trwyddedau safonol – sut maent yn gweithio

## 2.1 Beth yw trwydded safonol?

Mae **trwyddedau safonol** yn cynnwys un amod, sy'n cyfeirio at set (neu setiau) benodedig o reolau safonol y mae'n rhaid i weithredwr gydymffurfio â nhw. Mae'r rheolau safonol yn diffinio'r gweithgareddau y gall gweithredwr eu gwneud, ac yn nodi'r cyfyngiadau sydd eu hangen ar y gweithgareddau hynny, megis cyfyngiadau ar allyriadau neu'r mathau o wastraff neu ddeunydd craidd y gellir eu derbyn yn y safle hwn. Mae rheolau safonol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Dyma'r deuddegfed ymgynghoriad o'r fath.

Mae gweithredwr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgaredd penodol yn gallu edrych ar y rheolau safonol ac, os byddant yn gallu cydymffurfio â nhw, mae'n bosib y byddant yn penderfynu gwneud cais am drwydded safonol. Gallwn gyflwyno'r drwydded yn gynt ac yn fwy rhad oherwydd nid oes gennym benderfyniadau i'w gwneud ynglŷn ag amodau trwydded sy'n benodol i'r safle. Mae'n rhaid i weithredwr nad yw'n gallu bodloni gofynion y rheolau safonol wneud cais am **drwydded bwrpasol** a rhoi gwybodaeth ychwanegol inni. Mae'n cymryd mwy o amser inni gyflwyno trwydded bwrpasol oherwydd bod rhaid inni gynnal asesiad mwy manwl o'r cais, penderfynu a ydym am gynnwys amodau sy'n benodol i'r safle, a gwneud gwaith ymgynghori yn unol â'n datganiad cyfranogiad cyhoeddus, sydd ar gael ar ein gwefan.

Nid oes hawl i apelio yn erbyn y rheolau mewn trwydded safonol, oherwydd mae ymgeisio am drwydded safonol yn wirfoddol. Os yw gweithredwr am newid y ffordd y mae'r safle'n gweithredu fel ei fod y tu hwnt i gwmpas y rheolau safonol, neu os yw'r rheolwr yn teimlo nad yw'r drwydded safonol yn addas ar gyfer ei weithrediad penodol bellach, mae'n rhaid gwneud cais i'w hamrywio ac i gael trwydded bwrpasol.

Mae'n rhaid i weithredwyr ymgeisio am drwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw weithgareddau nad ydynt o fewn cwmpas y rheolau safonol. Yn gyffredinol, mae gan y gweithgareddau hyn effaith bosibl fwy ar yr amgylchedd, neu mae angen iddynt gael rheolaethau mwy cymhleth na gweithrediadau y gellir defnyddio'r rheolau safonol ar eu cyfer.

Dim ond pan fydd gan y cyfleuster a reoleiddir un person unigol cyfreithiol fel y gweithredwr y gellir caniatáu trwyddedau rheolau safonol. Caiff y gair **'Gweithredwr'** ei ddiffinio yn Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol fel yr unigolyn sydd â rheolaeth dros weithrediad cyfleuster a reoleiddir. Os nad yw cyfleuster a reoleiddir wedi cael ei wneud yn weithredol, y person a fydd â rheolaeth drosto pan fydd yn weithredol yw'r gweithredwr.

Y peth pwysig wrth benderfynu a yw rhywun yn weithredwr cyfleuster a reoleiddir yw p'un a yw'n gallu cynnal rheolaeth dros ei weithrediad. Mae'n rhaid iddo ddangos bod ganddo'r awdurdod a'r gallu i sicrhau cydymffurfiad â'r Drwydded Amgylcheddol.

Wrth asesu a oes gan y gweithredwr (neu weithredwr arfaethedig) yr awdurdod a'r gallu, rydym yn ystyried y ffactorau canlynol yn ogystal â rhai eraill.

A oes gan y gweithredwr/gweithredwr arfaethedig yr awdurdod a'r gallu i wneud y canlynol:

1. Rheoli gweithrediadau ar y safle drwy reoli gweithrediadau'r safle o ddydd i ddydd, gan gynnwys dull a chyflymder y gwaith?
2. Sicrhau y cydymffurfir yn effeithiol â'r amodau trwyddedu?

3. Penderfynu pwy fydd yn dal y swyddi allweddol a diswyddo aelodau staff sy'n anghymwys?
4. Gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi a/neu benderfyniadau ariannol eraill sy'n effeithio ar berfformiad y cyfleuster?
5. Sicrhau bod gweithgareddau a reoleiddir yn cael eu rheoli'n briodol mewn argyfwng?

Gall perchennog safle barhau i fod y gweithredwr yn ogystal â dal y drwydded lle mae'n gosod contract ar gyfer gweithgareddau ar safle cyn belled â'i fod yn parhau i gymryd cyfrifoldeb ac yn ymgymryd â goruchwyliaeth ddigonol.

## 2.2 Beth yw rheolau safonol?

Wrth ddatblygu setiau o **reolau safonol**, rydym yn cynnal un asesiad risg ar gyfer gweithgarwch a wneir yn aml. Mae hyn yn ein galluogi i ddiffinio'r terfynau risg y gellir defnyddio'r rheolau oddi mewn iddynt. Mae'r terfynau risg hyn yn cynnwys nifer o gyfyngiadau megis maint, lleoliad, a'r gwaith o reoli'r gweithrediadau. Y cyfyngiadau hyn fydd y rhai angenrheidiol i alluogi set gyson o reolau i leihau'r risg hyd at lefel dderbyniol. Byddai'r rheolau'r un peth ar gyfer pob gweithredwr sy'n ymgymryd â'r weithred benodol honno, ni waeth ble mae'r lleoliad. Mae rheolau ac asesiadau risg yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw er mwyn i weithredwyr a'r cyhoedd wybod yn union pa reolau byddwn yn eu gweithredu i weithgaredd arfaethedig.

Wrth ddatblygu'r terfynau risg ar gyfer pob set o reolau safonol, mae'n rhaid inni ddiogelu ansawdd amgylcheddol rhai derbynyddion sensitif penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl bydd rheolau safonol yn cynnwys rheol sy'n mynnu peidio ag ymgymryd â gweithgaredd o fewn pellter penodol oddi wrth rai mathau o safleoedd gwarchod natur dynodedig, megis safleoedd Ewropeaidd.[1]

Nid yw'r rheolau ar gyfer rhai gweithrediadau yn caniatáu ymgymryd â gweithgareddau o fewn pellter penodol oddi wrth gwrs dŵr neu barth diogelu tarddiad dŵr daear.  Bydd angen i weithredwyr wirio bod eu gweithgaredd yn cyd-fynd â'r rheolau cyn gwneud cais. Os bydd newid yn yr amgylchiadau lleol ar ôl i'r drwydded gael ei chyflwyno i'r fath raddau na fydd y gweithrediad yn cyd-fynd â'r rheolau safonol bellach (er enghraifft, dynodir safle cadwraeth o fewn y pellter sgrinio a nodwyd), mae'n bosibl y bydd angen i weithredwr uwchraddio'r gweithrediad er mwyn cynnal lefelau amddiffyn neu wneud cais i newid i drwydded bwrpasol.

Rydym wedi seilio'r rhan fwyaf o'n rheolau ar yr amcanion mae angen eu cyflawni. Maent yn nodi'r **hyn** rydym am i weithredwyr ei gyflawni, ond nid ydynt yn dweud wrthynt am **sut** i'w gyflawni. Eu cyfrifoldeb hwythau yw hwnnw. Nid yw'r dull hwn yn newydd ac roedd yn cael ei ddefnyddio mewn trefniadau blaenorol megis caniatadau gollyngiadau o ran ansawdd dŵr, trwyddedu gweithgareddau rheoli gwastraff, atal a rheoli llygredd, a rheoleiddio sylweddau ymbelydrol. Darperir canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r rheolau rydym eisoes wedi'u cyhoeddi yn 'Sut i gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol', sydd ar gael ar ein gwefan.

## 2.3 Yr asesiad risg generig

[1]Ardal Cadwraeth Arbennig, neu ymgeisydd amdani, ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig, neu un arfaethedig, yng Nghymru a Lloegr. At ddibenion y rheolau safonol, mae safle Ramsar yn cael ei ystyried yn safle Ewropeaidd.

Rydym wedi paratoi asesiad risg generig ar gyfer pob set o reolau. Mae'r asesiad yn diffinio'r terfynau risg y gellir eu rheoleiddio drwy fesurau rheoli cyffredin a sut i reoli'r risgiau'n briodol. Mae'r asesiad risg wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio'r dull 'tarddiad – llwybr – derbynnydd'. Mae'r asesiad risg wedi'i rannu'n dair adran fras:

**Data a gwybodaeth** – mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am y derbynnydd, y tarddiad, y difrod, a'r llwybr sy'n berthnasol i'r gweithgaredd o dan sylw.

**Dyfarniad** – rydym wedi cynnal yr asesiad risg i benderfynu ar y tebygolrwydd y bydd y derbynyddion yn agored i'r perygl, canlyniadau'r perygl a fydd yn digwydd, a maint cyffredinol y risg.

**Cam gweithredu** – bydd risgiau yn cael eu rheoli drwy osod rheolau safonol. O ran rheoli sŵn a dirgryniadau, bydd hyn yn cynnwys cydymffurfiad â'r cynllun rheoli sŵn a dirgryniadau perthnasol lle bo'n angenrheidiol. Byddwn yn rheoli gweddill y risgiau drwy gynnal asesiadau cydymffurfio, megis arolygiadau safle, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn cydymffurfio â'r rheolau.

Fel y crybwyllwyd yn gynt, mae'n bosibl y bydd set o reolau safonol yn cynnwys rheol sy'n mynnu nad yw gweithgareddau yn cael eu cynnal o fewn pellter penodol o fathau o safleoedd gwarchod natur dynodedig. Mae sensitifrwydd cyffredinol cynefinoedd a grwpiau o rywogaethau i'r peryglon posibl oddi wrth gyfleusterau a reoleiddir gennym drwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn hysbys iawn. Gall difrod ddigwydd drwy beryglon megis llygriad gwenwynig, cyfoethogiad maethynnau, colli cynefinoedd, y broses siltio, y broses mygu, aflonyddu ac ysglyfaethu.

Mae'r rheolau pellter hyn yn ein galluogi i hidlo allan y gweithgareddau na allent gael effaith ar nodweddion diddordeb y safleoedd a'r rhywogaethau hyn. Mae hyn yn rhan o'r terfynau risg cyffredinol ar gyfer pob gweithgaredd ac yn angenrheidiol oherwydd ni fyddwn yn ymgynghori â'r cyrff gwarchod natur o ran ceisiadau unigol ar gyfer trwyddedau safonol, yn unol â'n datganiad cyfranogiad cyhoeddus.

# 3 Set arfaethedig o reolau ac asesiad risg

## 3.1 Diwygiad i'r rheolau safonol ar gyfer peiriannau symudol ac asesiadau risg sy'n awdurdodi'r gwaith o daenu gwastraff ar dir er budd amaethyddol neu welliant ecolegol. SR2010No4, SR2010No5 a SR2010No6

Mae'r rheolau safonol hyn ar gyfer peiriannau symudol yn awdurdodi'r gwaith o daenu gwastraff ar dir er budd amaethyddol neu welliant ecolegol. Cawsant eu datblygu mewn ymateb i newidiadau i eithriadau gwastraff a ddaeth i rym yn 2010. Mae'r gwelliannau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r profiad a enillwyd dros y chwe blynedd diwethaf.

Mae'r cynigion cyfredol i ddiwygio'r rheolau safonol hyn fel a ganlyn:

a) Newidiadau i'r darpariaethau ar gyfer storio gwastraff dros dro cyn ei daenu

b) Galluogi gweithredwyr i ofyn am ganiatâd i drin darnau o dir dros 50 hectar

c) Rheoli gwaith taenu mewn Parthau Gwarchod Dŵr Daear rhag nitrad

d) Ychwanegu cyfyngiadau ar daenu mewn amodau gwael

e) Diweddaru'r rhestr o wastraffau derbyniol ac ychwanegu nifer o wastraffau newydd

f) Gofyn am hysbysiad ymlaen llaw am y bwriad i ddechrau taenu

g) Diwygiadau bach i ddiffiniadau a geiriad cyfredol i roi gwell eglurdeb a chysondeb

### a) Storio gwastraffau cyn eu taenu

Pan gafodd trwyddedau ar gyfer peiriannau symudol sy'n taenu ar dir eu cyflwyno yn 2010, roedd y trwyddedau safonol yn cynnwys y broses gysylltiedig o storio gwastraff lle roedd yn cael ei ddefnyddio. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau hyblygrwydd gweithredol o ran y cyfnod taenu, ac i osgoi'r anawsterau ymarferol a logistaidd o orfod taenu'r gwastraff yn syth ar ôl iddo gyrraedd y safle. Ni fwriedir iddo gymryd lle cyfleusterau storio sydd wedi eu hadeiladu a'u cynnal yn gywir.

Gosodwyd terfyn storio o 3,000 tunnell ar unrhyw un adeg, ar gyfer pob trwydded; ffigur a oedd yn adlewyrchu ein disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o'r gwastraff a oedd i'w daenu'n cael ei storio naill ai lle y cafodd ei gynhyrchu, neu mewn cyfleusterau storio trwyddedig dros dro, ac yn cael ei gludo i'r safle lle roedd yn cael ei ddefnyddio ychydig o amser cyn ei daenu. Fodd bynnag, mae llawer o weithredwyr wedi dehongli hyn fel 3,000 tunnell ar gyfer pob lleoliad, sydd wedi arwain at sefyllfa lle mae swmp storio ar y safle lle mae'r gwastraff yn cael ei daenu wedi dechrau cael ei ystyried yr opsiwn dewisol ar gyfer storio tymor hir.

Rydym yn ystyried bod storio meintiau mawr o wastraffau mewn cyfleusterau dros dro na wyddys am ansawdd eu hadeiladwaith yn peri risg bosibl sy'n annerbyniol o uchel. Mae hyn yn arbennig o wir am wastraffau hylif. Er mwyn rhoi persbectif ar y terfyn o 3,000 tunnell, mae pwll nofio Olympaidd yn gallu cynnwys tua 2,500 tunnell o wastraff hylif.

Mae rhai cyfleusterau storio'n cael eu defnyddio'n barhaus, ac mae'r mewnbynnau a'r allbynnau cyson yn sicrhau nad yw'r cyfleusterau byth yn wag. Ni ellir diffinio'r cyfleusterau hyn fel rhai symudol; maent yn orsafoedd trosglwyddo gwastraff ac mae angen trwyddedau safle arnynt.

Mae dibynnu ar storio o dan drwyddedau ar gyfer storio gwastraff dros dro wedi atal buddsoddiadau mewn cyfleusterau storio mwy priodol, wedi tanseilio cydnerthedd busnesau, ac wedi creu problemau difrifol ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff mewn cyfnodau pan fydd y tir yn ddyfrlawn, wedi rhewi, neu heb fod ar gael am resymau eraill. Mae hyn wedi dod yn broblem gylchol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda dilyniant o gynhyrchwyr a thaenwyr tir yn adrodd am anawsterau ar wahanol adegau, a rhai cyfleusterau treulio anerobig yn gorfod atal eu gweithrediadau oherwydd diffyg lle i storio eu deunydd treuliadwy.

Rydym yn parhau i gredu bod storio o dan drwyddedau ar gyfer storio gwastraff dros dro yn dderbyniol os yw'r mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith, ac mae'n glir bod deiliaid trwyddedau'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd mae hyn yn ei gynnig. O'r herwydd, rydym yn cynnig gwneud y diwygiadau canlynol:

- Bydd terfyniadau storio yn y dyfodol yn berthnasol i bob lleoliad yn hytrach nag i bob trwydded. Bydd hyn yn darparu cryn dipyn mwy o hyblygrwydd na'r drefn gyfredol, a bydd yn osgoi'r angen i weithredwyr gael nifer o drwyddedau.
- Bydd terfyn storio o 3,000 tunnell yn parhau i fod yn berthnasol i bob lleoliad.
- Byddwn yn defnyddio dull gwahanol ar gyfer storio gwastraffau solet (y gellir eu pentyrru) a gwastraffau hylif (na ellir eu pentyrru) mewn modd diogel. O'r 3,000 tunnell a ganiateir ar gyfer pob lleoliad, ni chaiff dros 1,250 tunnell fod yn wastraff na ellir ei bentyrru (y terfyn o dan yr eithriad Paragraff 7 blaenorol).
- Ni chaiff dros 3,000 tunnell o wastraff gael ei storio mewn lleoliad sengl ar unrhyw un adeg. O'r 3,000 tunnell hyn, ni chaiff dros 1,250 fod yn wastraff na ellir ei bentyrru.
- Bydd y gofyniad Parthau Perygl Nitradau ar gyfer pentyrrau mewn caeau'n cael ei gynnwys yn y drwydded er mewn lleihau gwastraff ffo. Mae'r amod yn darllen fel a ganlyn: 'Dylai pentyrrau mewn caeau orchuddio cyn lleied o arwynebedd ag sydd ei angen yn ymarferol i'w hatal rhag cwympo, ac ni ddylent gael eu lleoli o fewn 30m o ddŵr wyneb os yw'r tir ar lethr serth (h.y. llethr o 12 gradd (1 mewn 5 neu 20%) neu'n fwy).'
- Mae amonia yn llygrydd a nodir ym Mhrotocol Göteborg a'r Gyfarwyddeb Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol, a'r ddau ohonynt yn ceisio cyfyngu allyriadau. Gall storio gwastraffau sy'n rhyddhau nitrogen yn rhwydd heb orchudd yn arwain at allyriadau amonia yn yr awyr. Mae hefyd yn cael effaith leol ar ansawdd aer, a phrofwyd bod dyddodion gormodol o nitrogen yn cael effaith andwyol ar gyfansoddiad/dwysedd rhywogaethau mewn cynefinoedd sensitif. O'r herwydd, rydym yn cynnig ei bod yn orfodol gorchuddio deunydd treuliadwy pan fydd yn cael ei storio o fewn 200 medr o Safle Ewropeaidd, Safle Ramsar neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er mwyn cyfyngu'r effaith ar y safleoedd hyn.

### b) Caniatâd i drin darnau o dir dros 50 hectar (SR2010No4 a No6 yn unig)

Mae rhai ceisiadau am ganiatâd i drin tir rydym yn eu derbyn yn gymhleth dros ben, ac yn cynnwys amrediad eang o newidynnau (mathau o wastraff, cyfraddau defnyddio, mathau o bridd, cyfundrefnau cnydio). Mae ceisiadau o'r fath yn cymryd cryn dipyn o amser i'w hasesu. Mae eraill yn gymharol syml, e.e. math sengl o wastraff ar gae mawr. Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol caniatáu trin tir dros 50 hectar. O'r

herwydd, rydym yn cynnig caniatáu trin tir hyd at 100 hectar, lle mae’r tir yn 'ddarn o dir sy'n cael ei reoli'n barhaus'.

Rydym yn gwahodd awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir diffinio 'darn o dir sy'n cael ei reoli'n barhaus'. Rhaid i unrhyw ddiffiniad fod yn glir ac yn ddiamwys ac yn osgoi'r risg o gael ei gamddefnyddio, a dylai gael ei gyfyngu i amgylchiadau lle mae nifer fach o newidynnau.

### c) Parthau Gwarchod Dŵr Daear rhag nitrad

Mae ffynonellau dŵr yfed sy'n dod o ddŵr daear yn adnoddau gwerthfawr, ond maent mewn perygl cynyddol gan lygredd. Y llygrydd sy'n peri'r pryder mwyaf yw nitrad.

Mae triniaeth i dynnu llygryddion o ddŵr yfed yn ddrud iawn; mae safle arferol yn costio dros £4 miliwn, gyda chostau gweithredu blynyddol yn costio cannoedd o filoedd o bunnoedd. Yn hytrach na gorfodi cwsmeriaid dŵr i dalu cost adeiladu a gweithredu'r cyfleusterau trin dŵr ychwanegol, mae’n fwy cost effeithiol i atal neu i leihau llygredd ar y tarddiad.

Mae dynodi Parthau Gwarchod Dŵr Daear rhag nitrad yn rhan o strategaeth gydlynus i amddiffyn ein hadnoddau dŵr daear, ac maent yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o ddarparu cyflenwad cynaliadwy o ddŵr yfed.

Felly, er mwyn ategu mesurau ataliol eraill, rydym yn cynnig bod taenu'r gwastraffau sy'n rhyddhau nitrogen yn rhwydd ar dir yn cael eu heithrio o'r rheolau safonol hyn.

Ceir diffiniad o wastraffau sy'n rhyddhau nitrogen yn rhwydd, wedi'i dynnu o’r Rheoliadau Atal Llygredd Nitrogen, yn yr adran ddehongli.

### d) Taenu mewn amodau gwael

Er mwyn lleihau'r risg o lygredd, mae eithriadau taenu ar dir U10 ac U11 eisoes yn cynnwys y cyfyngiadau canlynol:

Ni ddylid taenu gwastraff ar dir:

- Os bu'r tir wedi rhewi am 12 awr neu fwy yn ystod y 24 awr flaenorol
- Os yw'r tir yn ddyfrlawn, wedi rhewi, neu os oes eira arno

Rydym yn ystyried y dylai'r cyfyngiadau hyn fod yr un mor berthnasol i waith taenu ar dir a wneir o dan drwyddedau amgylcheddol. Er mwyn rhoi rhagor o amlygrwydd iddynt, a'u rhwymo mewn cyfraith, rydym yn cynnig eu cynnwys yn y rheolau safonol.

Ceir diffiniadau o ddyfrlawn ac wedi rhewi, wedi eu tynnu o gyfarwyddyd croes-gydymffurfio, yn yr adran ddehongli.

### e) Rhestr o wastraffau derbyniol

Ers i'r rheolau safonol hyn gael eu cyflwyno yn 2010, rydym wedi derbyn ceisiadau i ychwanegu gwastraffau newydd i'r tabl o wastraffau derbyniol. Rydym hefyd wedi nodi nifer o ddiwygiadau i godau gwastraff a disgrifiadau a fydd yn rhoi gwell eglurdeb a chywirdeb. Bydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r amrediad o wastraffau y gellir eu taenu o dan y rheolau safonol.

Gwahoddir ymgynghoreion i gynnig mathau eraill o wastraff i'w cynnwys yn y rheolau safonol. Gwnewch yn siŵr bod awgrymiadau'n cael eu hategu gan dystiolaeth bod y

gwastraffau'n addas i'w hadennill trwy eu taenu ar y tir, a nodi'n eglur y manteision maent yn eu rhoi.

### f) Yr angen am hysbysiad ymlaen llaw am y bwriad i ddechrau taenu

Mae'r rheolau safonol a'r trefniadau ar gyfer trin tir yn rhoi'r gallu i weithredwyr ddewis pryd mae eu gwaith taenu'n cael ei gynnal, ac i newid dyddiadau taenu os oes angen. Rydym yn ystyried bod yr hyblygrwydd hwn yn rhan resymol a hanfodol o'r system.

Mae arnom ddyletswydd i reoleiddio taenu ar dir mewn modd effeithiol, ond ni allwn wneud hynny oni bai y gallwn arsylwi ar y gweithgaredd. Gall hyn fod yn anodd oherwydd nad yw taenu'n cael ei gynnal ond am gyfnodau byr dros gyfnod y caniatâd i drin tir. Gellir datrys y mater hwn os yw'r gweithredwr yn ein hysbysu cyn iddo fwriadu cynnal y taenu.

Mae rhai gweithredwyr wedi rhoi gwybodaeth ynglŷn â phryd maent yn bwriadu taenu yn wirfoddol, ond maent yn cwyno bod eu gweithgareddau'n cael eu harolygu'n fwy rheolaidd o ganlyniad, ac mae hyn yn peri risg fwy iddynt gael eu sgorio am ddiffyg cydymffurfio. Oherwydd bod y dull hwn o hysbysu ymlaen llaw yn wirfoddol wedi methu, rydym yn cynnig cynnwys yr amod canlynol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded ein hysbysu ymlaen llaw am ei fwriad i daenu.

Rhaid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o leiaf 48 awr cyn y bwriedir dechrau gweithrediadau taenu. Os yw gweithrediadau taenu yn dod i ben am dros saith diwrnod, rhaid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o leiaf 48 awr cyn y bwriedir ailddechrau taenu.

Gellid gwneud hysbysiadau mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn gwahodd ymgynghoreion i ddweud wrthym pa ddull neu ddulliau sy'n well ganddynt.

### g) Diwygiadau bach i ddiffiniadau a geiriad cyfredol

Mae nifer o ychwanegiadau a diwygiadau bach wedi eu gwneud er mwyn rhoi gwell cysondeb ac eglurdeb, ac mae rhai cyfeiriadau wedi cael eu diweddaru.

Mae'r nodyn cyflwyniadol bellach yn esbonio bod Rheoliad 16 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn cyfyngu'r defnydd o drwyddedau ar gyfer peiriannau symudol ar safleoedd sydd hefyd yn cael eu rheoleiddio gan drwyddedau safle amgylcheddol. Pan fydd anghysondebau rhwng amodau dwy drwydded, bydd amodau'r drwydded safle'n cael y flaenoriaeth. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ellir defnyddio'r rheolau safonol hyn ar gyfer taenu ar dir i storio gwastraff ar safleoedd adennill, oherwydd mae'r amrediad o fathau o wastraff y gellid eu defnyddio'n ehangach nag o dan drwydded y safle.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffioedd cyfredol am y trwyddedau hyn.

## 3.2 Diwygiad i'r rheol safonol a'r asesiad risg ar gyfer storio deunydd treuliadwy o safleoedd treulio anerobig. SR2010No17.

Rydym yn cynnig estyn y drwydded safonol bresennol ar gyfer storio deunydd treuliadwy SR2010No17 i ganiatáu storio'r amrediad llawn o wastraffau nad ydynt yn beryglus y gellir eu taenu o dan reolau safonol ar gyfer trin tir.

Mae'r cynnig fel a ganlyn:

a) Estyn y rhestr o wastraffau derbyniol i gynnwys yr holl wastraffau nad ydynt yn beryglus a restrir yn SR2010No4, No5 a No6.

b) Tynnu'r eithriad o wastraffau sy'n cynnwys powdr lluwch neu ffibrau rhydd yn unig, neu'n bennaf. Bydd y gwastraffau hyn yn dderbyniol os ydynt yn cael eu storio mewn adeilad.

c) Ei gwneud yn ofynnol i wastraffau y gellir eu pentyrru gael eu storio ar wyneb anhydraidd ac iddo ddraeniau wedi eu selio.

d) Ei gwneud yn ofynnol i gynhwysyddion a ddefnyddir i storio gwastraffau na ellir eu pentyrru gael eu hadeiladu i feini prawf CIRIA 126.

e) Gellir storio gwastraffau sy'n rhyddhau nitrogen yn rhwydd, ond rhaid i gynwysyddion fod â gorchudd i atal allyriadau amonia.

f) Rhaid storio gwastraffau gwahanol ar wahân.

g) Mae diwygiadau bach i ddiffiniadau a geiriad yn rhoi gwell eglurdeb a chysondeb.

Bydd gwneud y rheol safonol hon ar gael ar gyfer storio amrediad mor eang o wastraffau yn rhoi opsiwn cost isel i weithredwyr yn hytrach na chael trwydded bwrpasol. Bydd yn sicrhau bod gan gynhyrchwyr gwastraff, rheolwyr gwastraff a gweithredwyr taenu ar dir drwydded addas i ddatblygu capasiti storio wrth gefn, a lleihau'r risg i'w busnesau pan nad yw'r gronfa dir ar gael, e.e. mewn amodau tywydd garw a chyfnodau pan fydd parthau perygl nitradau ar gau. Bydd buddsoddi yn y cyfleusterau hyn yn helpu gweithredwyr i fodloni ymrwymiadau cytundebol trwy gydol y flwyddyn, ni waeth beth yw argaeledd y gronfa dir.

Dylai hefyd atal yr arfer o wneud cais i storio gwastraff ar sail hapfasnachol. Oherwydd bod llawer o weithredwyr wedi dewis peidio â buddsoddi mewn cyfleusterau storio pwrpasol, maent yn llwyr ddibynnu ar ganiatâd i storio dros dro. Er mwyn derbyn gwastraffau pryd bynnag y maent yn dod ar gael, mae rhai gweithredwyr yn gwneud ceisiadau am ganiatâd i storio gwastraff ymlaen llaw, heb wybod y math o wastraff y byddant yn ymdrin ag ef, na'i gyfansoddiad. Mae'n debyg na fydd y gwastraffau a restrir yn y caniatâd yn debyg i'r hyn sy'n cael ei storio a'i daenu ar y tir mewn gwirionedd. Mae'r arfer hwn yn tanseilio'r broses asesu, ac yn cwestiynu a yw'r gwaith sy'n cael ei gynnal yn waith adennill dilys. Trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau storio wedi eu hadeiladu i'r pwrpas, bydd gweithredwyr yn gallu derbyn a storio gwastraffau'n gyfreithlon, ac wedyn cyflwyno ceisiadau cywir am ganiatâd i storio gwastraff dros dro.

# 4 Cwestiynau ymgynghori

Yr ymgynghoriad hwn yw eich cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r rheolau safonol hyn. Dylent gael eu cyhoeddi'n gynnar yn 2017.

Byddem yn croesawu eich adborth ar y cwestiynau isod yn benodol:

**Cwestiwn un:**

A ydym wedi nodi'n gywir yr holl risgiau ar gyfer pob gweithgaredd, fel y'u disgrifir yn yr asesiadau risg generig sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad?

**Cwestiwn dau:**

A allwch awgrymu gwastraffau eraill a allai fod yn addas i'w cynnwys yn y rheolau safonol hyn?

**Cwestiwn tri:**

A yw'r codau a'r disgrifiadau ar gyfer lludw'n cynnwys yr amrediad o ludw gwastraff sy'n cael ei daenu ar dir?

**Cwestiwn pedwar**

Beth fyddai eich dull dewisol ar gyfer ein hysbysu ymlaen llaw am y bwriad i ddechrau gweithrediadau taenu?

Cwestiwn pump:

Ar gyfer caniatâd i drin hyd at 100 hectar, sut byddech yn dewis i reolau safonol ddiffinio 'darn o dir sy'n cael ei reoli'n gyson'?

**Cwestiwn chwech:**

Nid ydym yn ystyried y bydd y pecyn o gynigion a ddisgrifir yma, at ei gilydd, yn cael effaith ariannol sylweddol ar y gymuned busnes ehangach. P'un a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno, esboniwch pam, a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn ynglŷn â'r effeithiau posibl.

**Cwestiwn saith:**

Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw farn neu sylwadau ar y newidiadau hyn nad ydynt wedi cael sylw priodol yn y cwestiynau blaenorol.

# 5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## 5.1 Dyddiadau pwysig

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn agor tan 23 Rhagfyr 2016.

## 5.2 Sut i ymateb

Cewch weld y dogfennau a’r cwestiynau ymgynghori ar-lein ar
http://naturalresources.wales/?lang=cy

Os hoffech ofyn i fersiwn argraffedig o'r ddogfen gael ei hanfon atoch, cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid drwy e-bost, ffôn neu bost:

E-bost enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn 0300 065 3000

Post Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Gallwch gyflwyno eich ymateb drwy e-bost neu lythyr. Anfonwch eich ffurflen ymateb wedi'i chwblhau erbyn 23 Rhagfyr 2016 i'r cyfeiriad uchod.

## 5.3 Ar gyfer beth bydd yr atebion yn cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio'r atebion o'r ymgynghoriad hwn i lywio cynigion i Lywodraeth Cymru. Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwn yn gweld yr holl ymatebion yn llawn.

## 5.4 Sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Trwy gydol yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud yr holl sylwadau (ac eithrio gwybodaeth bersonol) ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a geir ar-lein, drwy e-bost, drwy'r post, a thrwy ffacs, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol. Dim ond enwau sefydliadau sy'n ymateb, ac nid unigolion, fydd yn cael eu cyhoeddi.

Os byddwch yn ateb ar-lein neu ddarparu cyfeiriad e-bost, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o’ch ateb. Ar ôl i'r ymgynghoriad gael ei gau, bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu pan fydd hwn ar gael. Byddwch yn cael eich hysbysu hefyd am unrhyw ymgynghoriadau basn afonydd sydd ar y gweill, oni bai eich bod wedi gofyn i ni beidio â gwneud hyn.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych wedi gofyn i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol, efallai y bydd yn rhaid i ni roi crynodeb ohono beth bynnag.